**CYPE(6)-16-22 – Papur i'w nodi 4**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Philip Blaker
Cymwysterau Cymru

06 Gorffennaf 2022

**Arholiadau'r Haf**

Annwyl Philip,

Byddwch yn ymwybodol o adroddiadau yn y wasg yn ystod y cyfnod arholi diweddar am rai trafferthion gyda phapurau arholiad penodol. Mae'r rhain yn cynnwys rhannau coll o gwestiynau mewn arholiad Iaith a Llenyddiaeth Saesneg; a phryderon am bapurau mathemateg a chemeg Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol ac arholiadau ymarferol. Yn benodol, tynnodd yr adroddiadau hyn sylw at yr effaith a gafodd hyn ar fyfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau hyn, yn enwedig ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Mae rhiant hefyd wedi cysylltu â ni i fynegi pryderon tebyg am y papurau mathemateg a chemeg. Rhoddodd y rhiant y mater yng nghyd-destun ehangach effaith Covid-19 ar fyfyrwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'r ffaith mai'r cyfnod arholi hwn oedd y tro cyntaf i lawer o fyfyrwyr sefyll arholiad allanol. Disgrifiwyd yr effaith sylweddol y mae hyn wedi'i chael ar eu plentyn, hyd yn oed cyn i'r pryderon uchod am drafferthion gyda phapurau arholiad penodol gael eu hystyried.

Yn ystod ein sesiwn friffio ddiweddar gyda chi ym mis Mai 2021, trafodwyd y mater cyffredinol o drosglwyddo o raddau a asesir gan y ganolfan i arholiadau, ac effaith y tarfu a gafodd y pandemig ar fyfyrwyr ac ysgolion. Codwyd y mater o gwestiynau yn y papur Mathemateg gennym hefyd. Wrth drafod hyn, gwnaethoch amlinellu bod dwy ffordd o ddatrys y cwestiwn yn y papur arholiad. Roedd ysgolion wedi cael gwybod na fyddai dysgwyr yn cael eu profi ar un o'r ffyrdd hynny. Fodd bynnag, gallai ysgolion fod wedi disgwyl i'r ffordd arall ymddangos yn yr arholiad.

Yn fwy cyffredinol, rhoesoch sicrwydd ehangach i ni na fyddai myfyrwyr o dan anfantais wrth iddynt sefyll y cylch cyntaf hwn o arholiadau cyhoeddus am ddwy flynedd ac y byddai graddio'n ystyried yr ystod gyfan o faterion a wynebir gan y rhai sy'n sefyll yr arholiadau hyn.

Sut rydych chi'n ymateb i'r pryderon uchod a godwyd yn y cyfryngau a chan rieni unigol i ni'n uniongyrchol? Mewn cysylltiad â'r trafferthion a godwyd am arholiadau penodol, a allwch chi amlinellu sut rydych yn bwriadu lliniaru'r effaith bosibl y bydd y materion hyn wedi'i chael ar fyfyrwyr a sicrhau bod y graddau a ddyfernir yn deg? Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda CBAC i sicrhau nad yw trafferthion o'r fath yn codi eto? Pam mae'n ymddangos fel y bu rhywfaint o anghysondeb rhwng yr hyn yr oedd ysgolion yn disgwyl i'r arholiadau ei gynnwys a'r hyn a brofwyd yn y papurau?

Rydym hefyd yn ysgrifennu at CBAC ynghylch y trafferthion hyn (byddwn yn anfon copi o'r ohebiaeth hon atoch chi.) Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a CBAC.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 7 Medi.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.